## Cynigion am flaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

**9 Gorffennaf 2008**

**Brian Gibbons, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.**

Pleser mawr yw cael y cyfle hwn i roi gwybod i chi am y cynnydd a wnaed ar gynigion am flaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn arbennig o amserol, oherwydd ar 26 Mehefin cyhoeddodd Harriet Harman AS, y Gweinidog dros Fenywod, gynigion am Fesur Cydraddoldeb Sengl.

Mae'r rheswm dros greu Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn deillio o'n barn bod angen dull mwy cyfannol i ganiatáu i holl ddinasyddion Cymru fyw heb ofni gwahaniaethu neu ragfarn. Mae gan bobl lawer o anghenion cymhleth, ac nid ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd ag unrhyw "faes" neu gategori unigol. Mae rhoi'r dinesydd wrth galon ein proses o lunio polisïau a darparu gwasanaethau yn golygu bod ein dull o weithio fel Llywodraeth yn un wirioneddol gynhwysol.

Mae Cymru'n dod yn wlad fwy amrywiol, a rhaid i ni gofleidio'r cyfoeth diwylliannol a ddaw yn sgil hynny. Rydym am i'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl gyflwyno agenda flaengar ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yng Nghymru.

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddais ein bod wrthi'n ymgynghori ar gynigion am fframwaith a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Nododd y ddogfen ein bwriad i ddatblygu cynllun yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol, parchu'r unigolyn, trin pobl eraill ag urddas, a sicrhau tegwch a chydraddoldeb.

Fel rhan o'n hymrwymiad yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn pobl ar y blaenoriaethau a gynigiwyd gennym. Rwy'n cymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd i gyrraedd cymaint o sefydliadau â phosibl, gan gynnwys y rhai nad ydym wedi'u cyrraedd bob amser.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i sefydliadau partner ac unigolion a roddodd o'u hamser i lunio atebion a thrafod eu barn yn ystod cyfarfodydd a gweithdai. Yn sgil eu cymorth a'u cydweithrediad, cawsom wybod yn uniongyrchol am ystod eang o safbwyntiau ar y blaenoriaethau a gynigwyd gennym, ac rwyf o'r farn y gall y Cynllun Cydraddoldeb Sengl ysgogi newid cadarnhaol.

Roedd adolygiad cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod croeso i'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio ag anwybyddu'r ffaith bod mwy i'w wneud i sicrhau ein bod yn gwrando ar bawb, ac efallai y bydd yn rhaid i ni ganolbwyntio i raddau mwy ar grwpiau a chymunedau penodol i wneud yn siŵr bod modd iddynt fyw bywydau llawn.

Rydym wrthi'n brysur yn dadansoddi'r sylwadau a gawsom yn ystod y broses ymgysylltu hon, a nodir rhai o'r sylwadau allweddol isod:

- Dylai cydraddoldeb fod yn bwysig i bawb. Busnes pawb yw cydraddoldeb. Rhaid i ni ddylunio mwy o wasanaethau o amgylch ein dinasyddion, ac mae hyn yn galw am ddealltwriaeth wirioneddol o'u hanghenion a'u dymuniadau. Mae ein cymdeithas yn cynnwys dinasyddion a chymunedau amrywiol, er enghraifft, pobl ifanc, mamau sengl, pobl drawsrywiol a lleiafrifoedd ethnig. Nid oes unigolyn nodweddiadol.

- Pan fyddwn yn dweud bod cydraddoldeb yn bwysig i bawb, mae hyn yn cynnwys hawliau grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol i fyw eu bywydau fel dinasyddion llawn, cydradd, gydag urddas a heb ofni gwahaniaethu na rhagfarn.

- Rhaid i ni feddwl am gydraddoldeb a materion hawliau dynol yn gyson ar ddechrau'r broses o lunio polisïau, a hynny i sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gorau posibl ynglŷn â pholisïau ac yn rhoi cydraddoldeb wrth galon busnes.

- Rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar anghenion ein dinasyddion, gan gydnabod amrywiaeth poblogaeth Cymru er mwyn datblygu polisïau, gwasanaethau a strategaethau a ddylunnir i fodloni anghenion y bobl sydd angen y gwasanaethau hynny.

- Rhaid i ni barhau i ddatblygu cysylltiadau cryf rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyrff cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gydweithredu i gyflawni canlyniadau ar y cyd. Rydym yn ymwybodol nad oes modd i ni ddefnyddio dull un-dimensiwn i ymdrin ag anghydraddoldeb cyson.

Byddwn yn mabwysiadu ein cynllun cyntaf yn ystod yr hydref. Bydd yn gynllun tair blynedd, gyda chynlluniau gweithredu a fydd yn amlygu'r gwaith a wneir gennym, ar y cyd â'n partneriaid, i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd. Dyma fydd ein fframwaith ar gyfer yr agenda gydraddoldeb am y tair blynedd nesaf.

Yn y gorffennol, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda thri "maes", sef hil, anabledd a rhyw. Rhaid i ni ehangu hynny i gynnwys oedran, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae adborth o'r ymgynghoriad a chyhoeddi "Framework for a Fairer Future" gan Harriet Harman AS y mis diwethaf wedi fy arwain at y casgliad y dylem ystyried trawsrywedd fel elfen gydraddoldeb ar wahân.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl Cyntaf yn parhau am dair blynedd, a byddwn yn adrodd ar gynnydd bob chwe mis. Bydd y nawfed Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd y flwyddyn a bydd hwn yn adolygu'r cynllun yn fanylach.

Ein dyhead yw adeiladu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru ar egwyddorion hawliau dynol, sef tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas. Rydym yn dymuno gwau hyn trwy'r ddogfen gyfan. Bydd y cynllun hwn yn ffordd bwysig iawn o sicrhau bod hawl pawb i gydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei gynnal. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r cynllun a'i gynlluniau gweithredu yn ystod yr hydref.